

UCHAFBWYNTIAU CANOLFAN FFILM CYMRU

Ers 2013 rydym wedi cynnig rhaglen ddatblygu cynulleidfaoedd sylweddol sydd yn dod â rhagor o ffilmiau, i ragor o bobl, mewn rhagor o leodd ar draws Cymru. Yma rydym yn edrych ar rai o'r uchafbwyntiau hyd yn hyn ac yn rhannu'r hyn rydym wedi ei gyflawni ar draws ein rhwydwaith yng Nghymru a thu hwnt.

RHWYDWAITH

151 o aelodau

118 bwrseriaeth

280 rhwydwaith
arddangos ehangach

665 buddiolwyr
hyfforddiant

175 Sinema i Bawb
a llogi offer FHW

1692 buddiolwyr
rhwydweithio



Ymchwil Cynulleidfa

- Archwiliad o Addysg Ffilm yng Nghymru
- Darpariaeth Sinema yng Nghymru i deuluoedd gyda phlant anabl
- Strategaeth/Adolygiad Marchnata
- Sinema Gwledig
- Deall ein Cynulleidfaoedd
- Datgloi Treftadaeth
- Adolygiad Ffilmiau Cymreig
- Rhwydweithiau Gwyliau Ieuenctid
- Technegau arolwg cynulleidfa peilot



Cyfnewid Sgiliau

Cafodd pump myfyriwr o Brifysgol De Cymru eu gosod mewn lleoliadau Cymreig i gyfnewid sgiliau, cefnogi marchnata a hyrwyddo rhaglennu fel llwybr gyrfa, ac mae un myfyriwr nawr yn ystyried MA mewn curadu. Rydym yn datblygu modiwl profiad gwaith achrededig gyda'r brifysgol i'w lansio fel rhan o'r cwrs Astudiaethau Ffilm yn 2019.



Hyfforddiant Amrywiaeth

Arweiniodd dau 'Ddiwrnod Hyfforddiant Amrywiaeth Agor Drysau' i arddangoswyr at sesiynau DU gyfan drwy Sinema Cynhwysol. Roedd y sesiynau hyn yn edrych ar sut i groesawu cynulleidfaoedd, o ymwybyddiaeth dementia a thrawsrywiol i grwpiau ynysig fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches trwy Glwb Ffilmiau Menwyd WOW BME.



Cefnogaeth i Simenau Gwledig

Mewn partneriaeth gyda Moviola a Flicks in the Sticks, cyflwynwyd pedwar digwyddiad sinema gwledig yn ystod Gŵyl Ffilmiau Borderlines gan gynnig hyfforddiant ymarferol, syniadau a chyfleoedd rhwydweithio i sinemau cymunedol.



Spotlight: Off Y Grid

Mae deg lleoliad (Theatr Ardudwy, CellB, Galeri, Pontio a TAPE, Neuadd Dwyfor/Buddug, Magic Lantern, Dragon Theatre, Sinema Achlysurol a Sinema New Dot) wedi uno fel rhan o brosiect strategol FHW i hyrwyddo teitlau ffilmiau amrywiol i gynulleidfaoedd gwledig ac ynysig ar draws gogledd Cymru Wrth gymryd ymagwedd newydd, arloesol tuag at ddatblygu cynulleidfa maen nhw'n creu cyffro rhwng y wyth sinema ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau cost isel cyffrous sydd ar gael i bob oedran ar draws y rhanbarth. Mae'r prosiect eisoes wedi cyrraedd dros 8,900 o aelodau cynulleidfa.

CYNULLEIDFA

Mynediad i bawb

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn falch o arwain ar amrywiaeth a chynhwysiant ledled y DU ar ran FAN BFI. Ein nod ydy dylunio a chefnogi prosiectau sydd yn delio gyda chynrychiolaeth ar sgrin, yn y gynulleidfa a thu ôl i'r cameraDyma rai ohonyn nhw:

www.inclusivecinema.org

Gan weithio gyda'n Swyddog Mynediad FAN BFI, fe wnaethom lansio platform ar-lein unigryw ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant yn y sinema. Mae'r safle yn cynnwys adnoddau, astudiaethau achos a data.

Rhwydwaith Ffilm Hoyw

Fe wnaethom sefydlu rhwydwaith sydd yn tyfu o 20 o raglenwyr ar draws y DU sydd yn arbenigo mewn sinema LGBTQIA+. Maen nhw'n cynnig cefnogaeth i raglenwyr hoyw ifanc, yn curadu cynnwys teithiau fel ar gyfer y 'An Unashamed Claim to Visibility' tour & 'Gay as in Hysterically Funny' (BFI Comedy Genius) ac yn darparu platform i leisiau LGBTQIA+ trwy ffilmiau o ansawdd fel pecynnau POUT Peccadillo Pictures.

Nod Barcud Cyswllt Teulu


Cyflwyno nod barcud hygyrchedd i alluogi lleoliadau i ddarparu dangosiadau ffilm mewn amgylchedd ymlacedig i deuluoedd gyda phlant ag anableddau ac anghenion aml synhwyrdd. Mae 10 lleoliad wedi cael eu mentora ar draws Cymru.

Rhwydwaith Rhaglenwyr Ifanc 16-30

Datblygu'r genhedlaeth nesaf o fynychwyr ffilmiau a churadwyr, cynnig cyfleoedd rhaglennu a datblygu sgiliau, yn enwedig i bobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig lle mae yna lai o gyfleoedd (Rhyl Little Theatre, CellB, Neuadd Ogwen, Galeri a Chapter (Trelai/Sblot) i gymryd rhan yng Nghymru.



Lleoliadau Prosiect Cynulleidfaoedd



Canolbarth (9%)	Gorllewin (14%)
De Ddwyrain (24%)	Y Cymoedd (13%)
Gogledd Ddwyrain (8%)	Gogledd Orllewin (13%)
DU Gyfan (13%)	Cymru Gyfan (6%)



Spotlight: Gentle/Radical

Drwy brosiect Gobaith Cenhedlaeth Gentle/Radical llwyddodd swyddogion maes BAMER sydd yn gweithio yn y gymuned i gynhyrchu cynulleidfaoedd ar gyfer 10 dangosiad cynhwysol. Defnyddiwyd grym ffilm i gyflwyno materion cyfredol i ofod gwyllo llawr gwlad, democrataidd. O symposiwm y bobl i ddigwyddiad ffilm a choginio pontio'r cenhedloedd, roedd trafodaethau, gweithdai neu baneli yn dilyn y dangosiadau hyn gan ein helpu i archwilio ac wynebu grym ffilm i ddadgoloneiddio y gwirioneddau sydd o'n blaenau.

Gwyliau Arswyd Abertoir

Yn dathlu eu 13eg rhifyn gyda'r thema rhif 13 a'r genre rhwygwyr, mae Abertoir yn cynrychioli 10-13 o wledydd gyda hyd at 40 o ddangosiadau. O gasgliadau o ffilmiau mud cynnar yr 20fed ganrif gyda cherddoriaeth piano, i ddangosiad oddi ar y safle o Friday the 13th, cwis ffilm, a sioe gomedi theartig o Evil Dead II wedi'i bortreadu drwy gerddoriaeth Elvis, mae digon o ddewis i gynulleidfaoedd.

Wicked Wales

Gan weithio gyda chynulleidfaoedd ar draws gogledd ddwyrain Cymu, cynhaliodd Wicked ŵyl ffilmiau blynyddol, yn ychwanegol at glybiau ffilmiau, gwersylloedd ffilmiau haf, sinema dan arweiniad ieuencid yn Little Theatre y Rhyl. Fe wnaethon nhw weithio gyda Tir Morfa hefyd, ysgol leol i blant gydag anghenion ychwanegol lle mae'r grŵp menter ReACTions yn rhaglennu ac yn marchnata ffilmiau.

Cymru ar Ffilm

Fe wnaethom lansio 5 pecyn archif ar thema mewn partneriaeth gyda'r Archif Sgrin a Sain yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, wedi'i ddylunio ar gyfer y cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 4. Fe fydd yr adnoddauyn hyrwyddo addysg yn y dosbarth a gofod sinema ar draws amrediad o bynciau. Mae'r ffilmiau ar gael ar becyn DVD ar wahân a gellir eu harchebu gan walesonfilm@llgc.org.uk ac maen nhw i'w gweld ar blattform dysgu HWB Llywodraeth Cymru.

Lleoliadau yn y Fro


Dan arweiniad Canolfan Gelfyddydau'r Memo yn y Barri, mae Lleoliadau'r Fro yn brosiect peilot cyffrous rhwng 14 o ganolfannau celf cymysg a sinemau cymunedol ar draws Bro Morgannwg. Yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau torri'r iâ yn 18/19 mae'r rhwydwaith yn bwriadu lansio gwyl sir gyfan.

Blwyddyn y Môr

I ddathlu Blwyddyn y Môr Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru, fe wnaethom archwilio restr o deitlau ffilm wedi'u curadu yn 2018. A defnyddiodd 9 partner ar draws Cymru y rhain i gyflwyno digwyddiadau ffilmiau ar y thema arfordir a môr i gynulleidfaoedd.

Fewn Cof

Mae'r Archif Sgrin a Sain yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn agor treftadaeth sgrin Cymru i gynulleidfaoedd pontio'r cenedlaethau. Maen nhw'n defnyddio casgliadau graffeg a chlywedol y Llyfrgell Genedlaethol i ddatgloi atgofion a hwyluso therapi atgofion






Ffilmiau a ddangoswyd:

FFILM

Arian a sicrhawyd ar gyfer prosiectau newydd:

2,495

£940,268



Ffilmiau Cymreig

Dros
16,000
o fynediadau

121
o ffilmiau
Cymreig

12
diwrnod
rhagddangosiad

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn dathlu'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant Cymru yn flynyddol gan gynnig llwyfan i ddoniau Cymreig. Rydym wedi cefnogi 121 o ffilmiau Cymreig ers 2013 ac ni fyddai 24 ohonyn nhw wedi cael eu rhyddhau fel arall yn theatrig ac rydym wedi buddsoddi £55,000 yn uniongyrchol. Yn ddiweddar mae Canolfan Ffilm Cymru wedi lansio ystafell Rhagddangosiadau ar-lein i arddangoswyr i wyllo dangoswyr Cymreig



48,893

o dderbyniadau

40

lleoliad

149

safle


903

dangosiadau

Roald Dahl ar Ffilm

I ddathlu Roald Dahl 100 – blwyddyn canmlwyddiant geni Roald Dahl, datblygodd Canolfan Ffilm Cymru a Chapter raglen ffilm cyfeillgar i'r teulu rhwng Gorffennaf a Medi 2016 i ddathlu prif adroddwr stori'r byd, a anwyd yng Nghaerdydd ym 1916. Cyrhaeddodd ein hadnoddau cyn belled ag Ewrop! Fe wnaethom gynnig dangosiadau am ddim o Alfred Hitchcock Presents, comisiynu a mynd â Matilda Scratch 'N Sniff ar daith a lansio offeryn gwerthuso ar-lein.

Tymhorau Cenedlaethol



Mae gwybodaeth am ein holl brosiectau ar gael yn www.filmhubwales.org